# Gwybodaeth Ychwanegol i Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0380(BM) ac OAQ0380(BM) a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Trefnydd, ar 7 Mawrth 2007

**At Brynle Williams:**

Ysgrifennaf atoch ynghylch cwestiwn a ofynnwyd gennych yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth ynghylch cael caniatâd ar gyfer sicrhau cyfleusterau mynediad i bobl anabl i Lyfrgell Rhuthun. Mynegwyd pryder gennych am rôl Cadw yn y broses ganiatâd.

Mae Llyfrgell Rhuthun yn adeilad rhestredig gradd II ac, oherwydd hyn, rhaid cael caniatâd adeilad rhestredig i wneud unrhyw newidiadau iddi a allai newid ei chymeriad arbennig. Yn 2004, gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych gais i Lywodraeth y Cynulliad i gael caniatâd i osod ramp a gris allanol, i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Rôl Cadw, fel gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad, yw darparu asesiad arbenigol o effaith gweithfeydd ar gymeriad arbennig adeiladau rhestredig o'r fath. Mae hefyd yn gallu cynnig arweiniad anffurfiol cyn gwneud y cais i'r awdurdod lleol.

Penderfynodd y Cynulliad ar 18 Chwefror 2005, wedi ystyried yr holl wybodaeth a ddaeth i law, y byddai'r cynllun arfaethedig yn rhy niweidiol i gymeriad a golwg yr adeilad rhestredig. Cafodd y cynllun, fel y'i cyflwynwyd gan y cyngor sir, ei wrthod gan swyddog cadwraeth yr awdurdod ei hun ac roedd hefyd yn groes i arweiniad Cadw ar yr hyn a fyddai'n dderbyniol.

Cyfarfu Cadw â'r awdurdod yn sgîl hyn i roi cyngor ar gynllun arall a oedd yn fwy addas i gymeriad a golwg yr adeilad rhestredig. Cafodd y cais hwn ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ddinbych ar 10 Hydref 2006. Cafwyd caniatâd i wneud y gwaith hwn dri mis yn ôl, ar 14 Rhagfyr 2006.

Wrth benderfynu ar geisiadau caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, mae dyletswydd statudol i dalu sylw arbennig i ba mor ddymunol fyddai diogelu'r adeilad, ei leoliad ac unrhyw nodweddion pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n perthyn iddo. Fodd bynnag, mae'r ystyriaeth honno'n cael ei chydbwyso â'r angen i ddarparu cyfleusterau addas i bawb. Er bod y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn cydnabod nad yw sicrhau mynediad llawn i bob adeilad yn bosibl, mae Cadw'n credu y gellir dod o hyd i ateb boddhaol ym mron pob achos cyn belled â bod dychymyg a syniadau arloesol yn cael eu harchwilio'n iawn. Gyda hyn mewn cof, mae Cadw wedi cyhoeddi canllawiau pendant—Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol—i roi cyngor i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses. Mae Cadw yn ystyried bod darparu adnoddau i bobl anabl yn hynod bwysig. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob cynllun ymarferol arall fel bod adnoddau o'r fath yn cael eu darparu heb achosi niwed i'r adeilad cofrestredig neu i'w gymeriad.

O ran sicrhau mynediad i bawb yn gyffredinol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud y ddeddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau ei bod yn ofynnol cyflwyno datganiad mynediad gyda phob cais ar gyfer caniatâd i wneud gwaith allanol ar adeiladau rhestredig o 30 Mehefin 2007 ymlaen. Caiff canllawiau drafft eu paratoi a byddant yn destun ymgynghoriad maes o law.